Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Cylchlythyr Gaeaf '24





Dyma gylchlythyr olaf Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) ar gyfer 2024. Wrth i'r flwyddyn ddod i ben a'r Nadolig agosáu, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i anfon cofion cynnes y Bwrdd a thîm PSPRC atoch chi i gyd. Gobeithio y bydd eich Nadolig yn llawn llawenydd, gyda chyfleoedd i fyfyrio'n gadarnhaol, i orffwys ac i fagu nerth ar gyfer y flwyddyn newydd sydd i ddod.

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn o heriau sylweddol a chyfleoedd yr un mor addawol i'r dirwedd sgiliau ledled Cymru. Wrth i ni barhau i lywio marchnad swyddi sy'n datblygu a nodwyd gan drawsnewid digidol, sgiliau gwyrdd ac adferiad ar ôl y pandemig, ni fu'r angen i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau erioed yn bwysicach. Gyda'n gilydd, rydym wedi cymryd camau mawr wrth alinio anghenion cyflogwyr ac wedi dylanwadu ar lwybrau i ateb y prinder sgiliau.

Bydd lansiad cyffrous Medr eleni, a'r cydweithio parhaus rhwng Medr, Bwrdd PSPRC a thîm PSPRC, yn sicrhau bod y dirwedd sgiliau ac addysg drydyddol yn ne-ddwyrain Cymru yn cyd-fynd yn agos ag angen economaidd rhanbarthol. Drwy gyfuno trosolwg Medr o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-16 gyda mewnwelediadau PSPRC i ofynion sgiliau rhanbarthol, bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i lunio cwricwla, i ehangu prentisiaethau, ac i hyrwyddo dysgu sy'n seiliedig ar waith.

Bydd y bartneriaeth hon yn sicrhau bod myfyrwyr a gweithwyr yn ennill y sgiliau cywir i fodloni anghenion diwydiannau allweddol ar draws y rhanbarth, ac yn cwrdd â'r heriau hollbresennol a osodir trwy dechnolegau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg, a'r economi ddigidol.

Bydd y gwaith sydd o'n blaenau yn 2025 yn gofyn am fwy fyth o gydweithio. Edrychaf ymlaen at barhau â'n cenhadaeth gyffredin i sicrhau bod gan unigolion a busnesau'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu mewn byd sy'n newid.

**Gan ddymuno Nadolig heddychlon a llawen i chi i gyd**

**Leigh Hughes,**
**Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**



# Sylw ar ddatblygu sgiliau yn y diwydiannau creadigol



Ymunodd Lucy Squire, Pennaeth Cerddoriaeth a Drama Prifysgol De Cymru (PDC), â'r Grŵp Clwstwr Creadigol ym mis Mai 2023 i gynrychioli'r diwydiant cerddoriaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC).

Fel rhan o'i rôl, mae Lucy yn rhannu gwybodaeth am fylchau sgiliau a chyfleoedd, gan helpu i lunio llwybrau talent yn y dyfodol. Mae menter allweddol yn cynnwys gradd newydd PDC mewn [technoleg sain, goleuo a digwyddiadau byw](), wedi'i dylunio i roi i raddedigion y sgiliau sydd eu hangen i ffynnu mewn digwyddiadau byw a chynhyrchu.

Mae Lucy hefyd wedi chwarae rhan ganolog wrth feithrin cydweithrediadau â busnesau lleol, gan greu cyfleoedd interniaeth gwerthfawr i fyfyrwyr. Mae ei rhan yng Ngŵyl Immersed PDC—digwyddiad amlgyfrwng sy'n cael ei redeg gan fyfyrwyr—yn dangos ei hymrwymiad i ddarparu profiad ymarferol ac i feithrin talent newydd.

Mae partneriaethau PDC gyda'r Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth, NatWest, Sound Progression, Stage Sound Services, Libertino Records, a'r elusen hinsawdd Music Declares Emergency, ymhlith llawer o rai eraill, yn gwella datblygiad gweithwyr proffesiynol medrus iawn ymhellach a llwybr talent newydd ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth.

Mae Lucy hefyd yn un o dderbynwyr y Gronfa Sgiliau Creadigol eleni, sy'n cael ei rhedeg gan Cymru Greadigol, sydd yn meithrin talent newydd a phresennol drwy hyfforddi ac uwchsgilio unigolion. Bydd y £69,887 yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglen datblygu sgiliau cynaliadwyedd a thechnegol, ochr yn ochr â phrosiect ymchwil a chydweithio creadigol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n canolbwyntio ar y thema adfywio.

Yn unol â nodau PSPRC i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ac i feithrin arloesedd, mae ymdrechion Lucy yn cefnogi sector creadigol ffyniannus yn ne-ddwyrain Cymru. Tynnodd Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yr hydref hwn sylw pellach at fywiogrwydd diwylliannol y rhanbarth, gan arddangos dros 200 o artistiaid mewn mwy nag 80 o ddigwyddiadau.

Gyda chymorth llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd, roedd yr ŵyl yn ddathliad o gerddoriaeth, arloesedd a thechnoleg, gan gyfrannu at yr economi ddiwylliannol a dangos gofynion esblygol y gweithlu creadigol.

Mae llwyddiant yr ŵyl - ochr yn ochr â chydweithrediadau strategol Lucy – yn dangos sut mae'r rhanbarth yn gwthio ffiniau mewn perfformiad a thechnoleg, gan sicrhau bod talent sy'n dod i'r amlwg yn barod i ateb heriau'r diwydiant yn uniongyrchol. Drwy barhau i feithrin partneriaethau a darparu profiad ymarferol, mae PSPRC a'i phartneriaid yn y diwydiant creadigol yn helpu i sicrhau dyfodol disglair i sector cerddoriaeth a digwyddiadau de-ddwyrain Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i: [Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd]() a [https://immersedfestival.co.uk/cy/comingsoon/](https://immersedfestival.co.uk/cy/comingsoon/)








# Penodiad mentor newydd yn cryfhau'r cymorth i dalent diwydiant sgrin Cymru




Mae Siop Un Stop wedi penodi Zoë Rushton fel eu mentor newydd.

Mae Siop Un Stop yn fenter allweddol sy'n cefnogi talent newydd a sefydledig yn niwydiannau sgrin Cymru.

Dan arweiniad Sgil Cymru, mae Siop Un Stop yn brosiect cydweithredol gyda darparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru sydd â'r nod o feithrin gyrfaoedd yn y diwydiannau ffilm a theledu yng Nghymru.

Gyda chymorth gan gyllid Sefydliad Ffilm Prydain a'r Loteri mae'n darparu adnoddau fel mentoriaeth, rhaglenni hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd i gael lleoliadau.

Bydd Zoë yn cynnig ymgynghoriadau un i un gan roi arweiniad a chyngor arbenigol i unigolion sy'n dechrau yn y sectorau ffilm a theledu, yn ogystal â'r rhai sy'n ceisio uwchsgilio neu newid cyfeiriad gyrfa o fewn y diwydiant.

Fel rhan o'u hymrwymiad i greu sylfaen sgiliau o'r radd flaenaf yng Nghymru, mae Sgil Cymru wedi bod wrthi'n rhoi hyfforddiant dan arweiniad y diwydiant ar draws y sectorau ffilm, teledu a digidol. Bydd mentrau fel hyn, ochr yn ochr â mentoriaeth Zoë, yn allweddol wrth helpu unigolion i gael yr hyfforddiant cywir, i ennill profiad hanfodol, ac i gysylltu â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

Gyda dros ddeuddeg mlynedd o brofiad mewn talent, recriwtio a mentora, ochr yn ochr â deuddeng mlynedd arall ym maes cynhyrchu teledu, mae Zoë yn dod â chyfoeth o arbenigedd i'r rôl.

Ar ôl gweithio ei ffordd i fyny o fod yn rhedwr i uwch gynhyrchydd/cyfarwyddwr, mae ganddi gysylltiad dwfn yn niwydiannau creadigol Cymru ac ar draws y DU. Mae profiad amrywiol Zoë yn rhychwantu sawl genre, gan gynnwys ffeithiol, cerddoriaeth a digwyddiadau, rhaglenni dogfen a drama - gan ei gwneud yn adnodd amhrisiadwy i unrhyw un sy'n dymuno llywio'r sector neu symud ymlaen ynddo.

Wrth siarad am ei rôl newydd, dywedodd Zoe: "Mae dod o hyd i gyfleoedd i'r rhai a allai wynebu rhwystrau a'u cefnogi trwy eu gyrfaoedd cynnar yn agos at fy nghalon.

"Os ydych chi newydd ddechrau ac angen help i lywio'r farchnad swyddi neu'n chwilio am gyfleoedd hyfforddiant, rydw i yma i helpu. Gall gweithwyr llawrydd sefydledig hefyd gysylltu â mi i gael cyngor ar uwchsgilio neu newid llwybrau gyrfa—does dim un cwestiwn sy'n rhy fach!"

Mae'r penodiad hwn yn rhan o ymdrechion ehangach Sgil Cymru i hybu cymorth i unigolion yn y sector creadigol. Bydd agor Siop Un Stop yn cyd-fynd â digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant sydd ar ddod wedi'u dylunio i feithrin talent leol a darparu llwybrau at yrfaoedd cynaliadwy yn y diwydiannau sgrin.

P'un a ydych chi'n newydd-ddyfodiad uchelgeisiol neu'n weithiwr llawrydd profiadol sydd am ehangu eich sgiliau, bydd Siop Un Stop yn barod cyn hir i gynnig ystod o adnoddau a chyngor arbenigol i gefnogi taith eich gyrfa yn niwydiant ffilm a theledu ffyniannus Cymru. Cadwch lygad allan am ei hagoriad swyddogol yn ystod yr wythnosau nesaf!

I gael mwy o wybodaeth ewch i Siop Un Stop ar-lein.

# Cystadleuwyr o Gymru yn disgleirio yn WorldSkills Lyon 2024

Dangosodd talent ifanc orau Cymru eu harbenigedd technegol a galwedigaethol yn WorldSkills Lyon ym mis Medi. Yn ystod y gystadleuaeth buont yn cystadlu mewn meysydd fel peirianneg, lletygarwch a sgiliau digidol.

Ymhlith yr enillwyr nodedig, a gydnabuwyd yn y gwobrau Rhagoriaeth Sgiliau Ysbrydoledig yng Nghymru, roedd unigolion mewn peirianneg awyrofod, plymio a gwresogi, seiberddiogelwch a gwasanaeth bwytai.

Mae'r fenter a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru, wedi bod yn allweddol wrth baratoi'r cystadleuwyr hyn ar gyfer y llwyfan byd-eang, gan gynnig cyfleoedd i fireinio eu sgiliau, i gymryd rhan mewn cystadlaethau lleol, ac i dderbyn mentora.

Mae'r llwyddiant yn Lyon yn dyst i'r buddsoddiad

mewn hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru ac ymroddiad y cystadleuwyr.

Mae'r ymrwymiad i ragoriaeth mewn addysg alwedigaethol yng Nghymru wedi ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ifanc i ddilyn gyrfaoedd technegol ac i gyfrannu at economi gynyddol y rhanbarth.

Mae'r cyflawniadau yn Lyon nid yn unig wedi dod â balchder i'r cyfranogwyr ond hefyd wedi tynnu sylw at werth buddsoddi mewn datblygu sgiliau o'r radd flaenaf. Arddangosodd y digwyddiad, a adwaenir fel y Gemau Olympaidd Sgiliau, ragoriaeth mewn 62 o sgiliau dros bedwar diwrnod a gwnaeth 250,000 o bobl ei wylio - gan brofi gallu'r DU ymhellach i ddatblygu sgiliau o ansawdd uchel.

Yn dilyn llwyddiant y cystadleuwyr o Gymru yn y digwyddiad rhyngwladol yn Lyon, ym mis Tachwedd 2025, bydd Cymru'n cynnal rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills UK am y tro cyntaf.

Bydd y gystadleuaeth, sy'n tynnu sylw at ragoriaeth mewn sgiliau galwedigaethol, yn denu talent orau'r DU, gyda phobl ifanc yn cystadlu mewn meysydd fel cynnal a chadw awyrennau, celf gemau digidol 3D, a weldio.

Mynegodd Gweinidog Sgiliau Llywodraeth Cymru, Jack Sargeant AoS, falchder wrth gynnal y digwyddiad, a gwnaeth Prif Swyddog Gweithredol WorldSkills UK, Ben Blackledge, bwysleisio pwysigrwydd addysg dechnegol i economi'r DU. Bydd y genhedlaeth nesaf o brentisiaid o Gymru yn cael eu hysbrydoli yn y digwyddiad.





## Dadansoddiad sgiliau digidol ar gyfer De Cymru

Cydweithiodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRhau) yn ne-ddwyrain a de-orllewin Cymru ym mis Mehefin 2024 a chomisiynwyd *astudiaeth sgiliau digidol*, gyda'r nod o gasglu gwybodaeth am sgiliau digidol sylfaenol ac uwch i nodi bylchau sgiliau a phrinder sgiliau.

Gyda'i gilydd, galwodd y PSRhau ar gyflogwyr i rannu barn ar brentisiaethau a hyfforddiant, heriau cydraddoldeb ac amrywiaeth, a llwybrau dilyniant i rolau digidol. Datblygwyd arolwg i ddeall anghenion cyflogwyr yn well, i nodi blaenoriaethau rhanbarthol, ac i lywio meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru.

Gwnaeth 120 o bobl o dde-ddwyrain a de-orllewin Cymru ymateb i'r arolwg - gan gynnwys 62 o dde-ddwyrain Cymru a 58 o dde-orllewin Cymru. Roedd hyn o drawstoriad o fathau o gyflogwyr, gan gynnwys digidol, ariannol, llywodraeth leol, gweithgynhyrchu, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, darparwyr hyfforddiant, a manwerthu.

Gan ganolbwyntio ar ofynion sgiliau digidol sylfaenol, cyfeiriodd yr adroddiad at arwyddocâd PowerBi ar gyfer trin data, awtomeiddio rhaglenni, cynhyrchiant digidol a swyddfa sylfaenol - drwy offer fel Microsoft 365, ynghyd â sgiliau hollbwysig wrth ddefnyddio systemau sy'n cael eu gyrru gan ddata a systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid.

Nodwyd sgiliau digidol uwch ychwanegol hefyd drwy'r adroddiad, a oedd yn awgrymu bod technolegau deallusrwydd artiffisial a sero net yn sbarduno trawsnewid busnes. Rhoddwyd amlygrwydd i awtomeiddio, roboteg, rhaglennu microreoli, monitro o bell, IOT a seiberddiogelwch hefyd.

Roedd yr ymchwil hefyd yn canolbwyntio ar yr ystod o offer a thechnolegau digidol datblygedig sy'n cael eu defnyddio gan gyflogwyr ar gyfer datblygu a chodio stac llawn, seilwaith a llwyfannau cwmwl, dadansoddi data, adrodd a deallusrwydd artiffisial.

Yn olaf, awgrymodd yr adroddiad fod cyflogwyr yn gyffredinol yn recriwtio o raglenni gradd a chyrsiau coleg galwedigaethol. Mae'n ymddangos bod ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a gyflwynir drwy brentisiaethau yn fwy cyfyngedig ymhlith cyflogwyr ac mae angen i ffynonellau gwybodaeth ddod yn gliriach. Er enghraifft, sut mae fframweithiau prentisiaethau yn gweithio a'r darparwyr sy'n gallu cefnogi gofynion uwchsgilio.

Cliciwch yma i lawrlwytho copi o'r adroddiad.

# Addewid Caerdydd - enillwyr Sefydliad Sector Cyhoeddus y Flwyddyn, Gwobrau Symudedd Cymdeithasol y DU

Mae SOMO wedi cydnabod menter Addewid Caerdydd Cyngor Caerdydd am ei chyfraniadau sylweddol at ddatblygu symudedd cymdeithasol.

Mae'r fenter yn bartneriaeth ar draws y ddinas sydd â'r nod o godi dyheadau a chreu cyfleoedd i blant a phobl ifanc. Mae'n cyfuno ysgolion, busnesau a phartneriaid cymunedol ac yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer y farchnad swyddi.

Mae Gwobrau Symudedd Cymdeithasol y DU, a lansiwyd yn 2017, yn denu ceisiadau gan sefydliadau blaenllaw ledled y DU sy'n ymgorffori mentrau symudedd cymdeithasol yn eu strategaethau busnes.

Diolchodd Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg Caerdydd, y Cynghorydd Sarah Merry, am y gydnabyddiaeth a chanmolodd dîm Addewid Caerdydd am ei ymdrechion i greu cyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc.

Mae cydnabyddiaeth Addewid Caerdydd yn SOMOs 2024 yn tynnu sylw at ei rôl fel arweinydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb a chyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf.

I gael gwybod mwy neu i gymryd rhan yn y fenter Addewid Caerdydd, ewch i; https://cardiffcommitment.co.uk/index.php/cy/

